**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL GOFAL**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

2. Cyflwynwyd y Bil Gofal (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mai 2013. Gellir gweld y Bil yn:

http://services.parliament.uk/bills/2013-14/care.html

**Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi**

3. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd (DH) a'r hyn y dywed Llywodraeth y DU yw ei nodau yw gwella safonau ac ansawdd ledled y sector gofal a moderneiddio'r gyfraith fel ei bod yn rhoi blaenoriaeth i les unigolion ac yn galluogi pawb y mae arnynt angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol i gael gofal o ansawdd da. Rhennir y Bil yn dair rhan:

Rhan 1 – yr elfennau allweddol:

- diwygio'r gofal a'r cymorth a roddir i oedolion, er mwyn cyflawni dyhead papur gwyn yr Adran Iechyd, *Caring for our Future;*
- cyflwyno cap ar y costau y bydd rhaid i bobl dalu am eu gofal yn ystod eu hoes, fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn ar Gyllido Gofal a Chymorth yn Lloegr;
- cryfhau a moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion, yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn yr adolygiad o Ofal Cymdeithasol i Oedolion.

Rhan 2 – trefniant newydd i gryfhau ansawdd y gofal drwy:

- ddyfarnu graddau rhagoriaeth o'r math a ddefnyddir gan Ofsted, i ysbytai a chartrefi gofal;
- y Prif Arolygydd Ysbytai newydd i sefydlu proses i fynd i'r afael â phroblemau nas datryswyd ynglŷn ag ansawdd y gofal; a
- gwneud cyflenwi neu gyhoeddi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol gan ddarparwyr yn drosedd.

Rhan 3 – darparu ar gyfer sefydlu dau gorff newydd a fydd yn annibynnol ar yr Adran Iechyd, sef:

- Addysg Iechyd Lloegr ("*Health Education England"*), corff statudol a fydd yn cynorthwyo darparwyr a phroffesiynolion gofal iechyd i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am addysgu a hyfforddi eu staff; ac
- Awdurdod Ymchwil Iechyd (*"Health Research Authority"*) a fydd, yn yr un modd, yn cryfhau'r gallu i ddiogelu buddiannau cleifion mewn

ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, tra'n hyrwyddo ymchwil ac yn symleiddio'r broses o gymeradwyo.

4. Ar wahân i'r mân eithriadau yr ymdrinnir â hwy yn yr MCD hwn (gweler isod), mae'r darpariaethau sydd yn y Bil yn gymwys o ran Lloegr yn unig.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

5. Mae'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn gynwysedig yn Rhannau 1 a 3 o'r Bil. Gweler y cymalau 38, 48, 49 a 98 o'r Bil ac Atodlen 1 iddo.

*Lleoliadau Trawsffiniol*

6. Mae cymal 38 yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer lleoliadau trawsffiniol, ac yn ymestyn i'r cyfan o'r Deyrnas Unedig. Mae'n darparu ar gyfer parhad gofal drwy gyfrwng trefniadau cilyddol, ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig, a fydd yn caniatáu i oedolion gael eu lleoli mewn gofal preswyl (sef cartrefi gofal a mathau eraill o lety) mewn unrhyw un o'r gwledydd eraill, os dymunant.

7. Mae Atodlen 1, yn achos person sydd ag anghenion gofal a chymorth, sy'n preswylio fel arfer y Lloegr ac sydd arno angen llety preswyl i fodloni'r anghenion hynny, yn darparu ar gyfer lletya'r person hwnnw mewn rhan arall o'r DU. Mae'n darparu hefyd ar gyfer gwneud lleoliadau o'r fath yn Lloegr ar gyfer pobl sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, neu bobl y darperir eu gofal a'u cymorth o dan ddeddfwriaeth berthnasol yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae'n gwneud trefniadau cyffelyb hefyd ar gyfer lleoliadau trawsffiniol nad ydynt yn cynnwys Lloegr, h.y. lleoliadau Cymru-Yr Alban, Yr Alban-Gogledd Iwerddon a Gogledd Iwerddon-Cymru.

8. O ganlyniad, bydd modd i'r bobl sy'n dymuno symud i lety preswyl ar draws y ffiniau mewnol y DU ddewis gwneud hynny. Dichon y bydd y mathau o lety y mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys iddynt yn wahanol ym mhob gweinyddiaeth, ac yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth ym mhob awdurdodaeth. Bydd rheoliadau a chanllawiau yn cael eu paratoi, a fydd yn pennu sut y bydd y broses yn gweithio ym mhob gweinyddiaeth.

9. Os digwydd unrhyw anghydfod rhwng awdurdod lleol sydd wedi gwneud lleoliad trawsffiniol a'r awdurdod y lleolwyd y person ynddo, ynghylch preswylfa arferol y person hwnnw, ac na ellir datrys y mater yn lleol, caiff yr awdurdodau dan sylw ofyn am ddyfarniad ynglŷn â'i breswylfa arferol. Bydd angen i ddyfarniadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol (neu berson a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol) mewn perthynas â Lloegr neu gan yr awdurdod perthnasol yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, yn ôl yr amgylchiadau. Bydd manylion y broses o ddatrys anghydfodau yn cael eu pennu mewn rheoliadau a chanllawiau.

10. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan fod a wnelont â darparu llety i oedolion ag arnynt angen gofal a chymorth. Mae hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLIC 2006) ac Atodlen 7 i'r Ddeddf

honno. Mae lles cymdeithasol yn fater sydd o fewn pennawd pwnc 15 o Atodlen 7, DLlC 2006.

11. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

*Methiant Darparwyr*

12. Mae cymalau 48 a 49 yn ymwneud â methiant darparwyr, ac yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru. Gan fanteisio ar wersi a ddysgwyd yn dilyn methiant cwmni Southern Cross (a oedd gynt yn un o brif ddarparwyr gofal y DU), nod y darpariaethau hyn yw cryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal oedolion, gan wneud yr awdurdodau lleol, pan fo darparwr yn diffygio, yn gyfrifol yn y pen draw am barhad gofal yr holl oedolion sy'n derbyn gofal, waeth pwy fyddo'n cyllido'r gwasanaethau.

13. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys pan ddarperir y llety gan ddarparwr gofal sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru neu Loegr, a'r darparwr hwnnw'n analluog i barhau i ddarparu'r llety hwnnw oherwydd methiant busnes. Bydd ystyr "methiant busnes" yn cael ei ddiffinio mewn rheoliadau. Nid yw'r term, o anghenraid, yn gyfyngedig i fethiant ariannol, a gall gynnwys amgylchiadau eraill pan fo'r darparwr yn peidio â darparu gofal. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdod lleol yr ardal y lleolir y llety ynddi i ddiwallu anghenion oedolyn sydd yn y llety hwnnw oherwydd bod awdurdod lleol yn Lloegr (yn achos methiant darparwr yng Nghymru) neu yng Nghymru (yn achos methiant darparwr yn Lloegr) wedi trefnu i'w leoli yno. Oni bai am yr adran hon, ar yr awdurdod a wnaeth y trefniadau lletya y byddai'r ddyletswydd o ddiwallu'r anghenion.

14. Mae *is-adran (2)* o gymal 48 yn gwneud yn eglur bod yr adran yn gymwys pan fo'r:

- person mewn llety ac yn cael gwasanaethau gan ddarparwr gofal a reoleiddir yng Nghymru, ac
- yn y llety hwnnw oherwydd trefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yn Lloegr, a'r
- darparwr gofal yn dioddef methiant busnes.

15. Mae *is-adran (2)* yn gwneud yn eglur bod yr adran yn gymwys pan fo'r:

- person mewn llety ac yn cael gwasanaethau gan ddarparwr gofal a reoleiddir yn Lloegr, ac
- yn y llety hwnnw oherwydd trefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yng Nghymru, a'r
- darparwr gofal yn dioddef methiant busnes.

16. Mae *is-adran (3)* yn gwneud yn eglur bod gan yr awdurdod lleol y lleolir y llety ynddo ddyletswydd dros dro i ddiwallu'r anghenion a oedd yn cael eu diwallu gan y darparwr llety ddiffygiodd.

17. Mae *is-adran (4)* yn gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol sydd â'r dyletswydd dros dro yn ymgynghori ag awdurdod lleol yr ardal yr oedd yr oedolyn yn preswylio ynddi fel arfer ynghylch yr anghenion a oedd yn cael eu diwallu gan yr awdurdod hwnnw, ac i adennill gan yr awdurdod hwnnw y costau a dynnwyd wrth ddiwallu'r anghenion hynny yn ystod y cyfnod dros dro. Ar gyfer anghenion

nad oeddent yn cael eu diwallu gan awdurdod lleol yr ardal yr oedd yr oedolyn yn preswylio ynddi fel arfer (os oedd rhai), caiff yr awdurdod lleol adennill y costau gan yr oedolyn ei hunan.

18. Mae *is-adran (5)* yn cymhwyso'r weithdrefn datrys anghydfodau yn Atodlen 1 (lleoliadau trawsffiniol) i unrhyw anghydfodau rhwng awdurdodau lleol ynglŷn â chymhwyso'r cymal hwn.

19. Mae'r cymal cysylltiedig 111(3) yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud gorchymyn i ddod ag adran 48 i rym, i'r graddau y mae'n gymwys o ran llety yng Nghymru, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.

20. Mae cymal 49 yn egluro nifer o faterion ynglŷn â'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yng nghymalau 47 a 48. Rhaid darllen y cymal hwn, felly, ar y cyd â chymal 48 i'r graddau y mae'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

21. Yn ychwanegol, mae is-adran (10) yn gwneud yn ofynnol darparu mewn rheoliadau ar gyfer dehongli cyfeiriadau at fethiant busnes, neu at yr anallu i wneud rhywbeth oherwydd methiant busnes. Yn benodol, caiff rheoliadau bennu amgylchiadau pan fo person i'w drin fel un sy'n analluog i wneud rhywbeth oherwydd methiant busnes.

22. Mae'r cymal cysylltiedig 109(8*)* yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau o dan adran 49(10), ymgynghori â Gweinidogion Cymru**.**

23. Bydd cymalau 48 a 49 yn gosod dyletswyddau dros dro ar awdurdod lleol yng Nghymru i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a leolir gan awdurdodau lleol Seisnig mewn cartref gofal yng Nghymru, o dan drefniadau a wneir yn unol â'r darpariaethau lleoli trawsffiniol. Felly, ystyrir bod y cymalau hyn yn gosod math o gyfrifoldebau ar awdurdodau lleol yng Nghymru sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu arno, o dan ei bwerau yn adran 108 o DLlC 2006 ac Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Mae lles cymdeithasol yn fater sydd o fewn y pennawd pwnc 15 o Atodlen 7, DLlC 2006.

24. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

*<u>Yr Awdurdod Ymchwil Iechyd</u>*

25. Bydd yr Awdurdod Ymchwil Iechyd a chyrff penodedig sy'n cyflawni rhai swyddogaethau datganoledig mewn perthynas ag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol hefyd dan ddyletswydd i gydweithredu â'i gilydd, er mwyn cydgysylltu a hyrwyddo arferion rheoleiddio: cymal 98(1).

26. Mae cymal 98(4) yn darparu ar gyfer dyletswyddau cilyddol ar Weinidogion Cymru a'r awdurdodau datganoledig eraill, i gydweithredu â'r Awdurdod Ymchwil Iechyd wrth arfer eu priod swyddogaethau o reoleiddio asesiadau moesegol o'r ymchwil yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gyda golwg ar gydgysylltu a safoni arferion rheoleiddio o'r fath o fewn y Deyrnas Unedig.

27. Mae cymal 98(4) yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, megis atal, trin a lliniaru clefydau ("*prevention, treatment and alleviation of disease*"), a llesiant cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ("*social welfare including social services*"), i'r graddau y mae'r rhain o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan adran 108 o DLlC 2006 ac Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Mae'r materion hyn o fewn penawdau pwnc 9 a 15 o Atodlen 7. Gallai'r Cynulliad, felly, ddeddfu mewn perthynas â threfniadau ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, a gallai osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydweithredu ag eraill ar agweddau moesegol ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

28. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

**Rhyngddibyniaeth â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

29. Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Bil GCaLl Cymru), sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad, yn darparu ar gyfer trawsnewid y gofal a'r cymorth i bobl sydd ag anghenion o'r fath yng Nghymru. Mae'n darparu'r adeiledd cyfreithiol angenrheidiol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i wireddu ei weledigaeth o Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer Cymru. Yn wahanol i Ran 1 o'r Bil Gofal, mae'n cwmpasu pobl yn gyffredinol, h.y. plant, oedolion a'u gofalwyr.

30. Er mwyn darparu lefel ychwanegol o sicrwydd i bobl yng Nghymru sy'n dibynnu ar ddarparwyr gofal, ac i'w teuluoedd a'u gofalwyr, y bydd eu hanghenion gofal yn parhau i gael eu diwallu os bydd darparwr yn diffygio, bydd darpariaethau yn cael eu gwneud yng Nghymru yn gyfochrog â'r darpariaethau yng nghymal 48 ar gyfer ymateb i fethiant darparwr. Byddaf yn cyflwyno newidiadau ym Mil GCaLl Cymru i sicrhau y diogelir oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth os bydd y cwmni sy'n gyfrifol am eu gofal yn peidio â darparu gofal ar fyr rybudd. Pan fydd darparwr yn diffygio, yr awdurdod lleol y lleolir y darparwr ynddo fydd yn gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth i'r oedolion yr effeithir arnynt. Bydd y newidiadau hefyd yn cyfrannu i'r pecyn ehangach o fesurau i wella safonau ac ansawdd ledled y sector gofal, gan gynnwys mesurau i oruchwylio sefydlogrwydd ariannol darparwyr. Caiff y mesurau hyn eu hamlinellu yn fy Mhapur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu, y byddaf yn ymgynghori arno yn ddiweddarach yn ystod yr haf.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

*Lleoliadau trawsffiniol*

31. Y fantais o ddefnyddio Bil Gofal y DU yw y gellir gwneud trefniadau cilyddol rhwng Cymru a Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, na ellid eu gwneud o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, yn enwedig ymdrin ag anghydfodau trawsffiniol ac addasiadau ariannol.

*Methiant darparwr*

32. Y fantais o ddefnyddio Bil Gofal y DU yw y gellir gwneud trefniadau cilyddol rhwng Cymru a Lloegr, na ellid eu gwneud o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ni fyddai modd i'r Cynulliad ddeddfu i wneud yn ofynnol bod

awdurdodau lleol yn Lloegr yn digolledu awdurdodau yng Nghymru am gyflawni'r ddyletswydd dros dro o ddiwallu anghenion pobl sy'n preswylio fel arfer yn Lloegr ond a leolwyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Ni allai'r Cynulliad ddeddfu ychwaith i osod dyletswydd dros dro ar awdurdodau lleol yn Lloegr mewn achosion pan leolwyd pobl, sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, mewn cartrefi gofal yn Lloegr.

*Yr Awdurdod Ymchwil Iechyd*

33. Y fantais o ddefnyddio Bil Gofal y DU yw y gellir gwneud trefniadau cilyddol rhwng Cymru a Lloegr ac awdurdodau datganoledig eraill, na ellid eu gwneud o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Goblygiadau ariannol**

34. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru nac i'r awdurdodau lleol o ganlyniad i'r darpariaethau a drafodir yn y memorandwm hwn. Mae awdurdodau lleol dan ddyletswydd i sicrhau parhad gofal i bobl sy'n preswylio yn eu hardaloedd ac arnynt angen gofal a chymorth.

35. Mewn perthynas â methiant darparwr, mae Bil Gofal y DU yn gosod dyletswyddau cydweithredu ar awdurdodau Cymreig, ac yn darparu y caiff yr awdurdodau Cymreig adennill costau gan yr awdurdodau Seisnig sy'n lleoli. Yn achos unigolion sy'n cyllido'u hunain, byddai'r awdurdodau lleol yn adennill y costau gan yr unigolion a fyddai'n dymuno i'r awdurdod drefnu gofal amgen, pe digwyddai darparwr y cartref sy'n eu lletya yn diffygio. Yn yr un modd, gosodir dyletswyddau ar awdurdodau yn Lloegr, a gwneir darpariaeth i'r awdurdodau Seisnig adennill eu costau gan unrhyw awdurdod Cymreig sy'n lleoli.

**Gwenda Thomas**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Mai 2013**